CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 7) 2020

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn gosod mannau parcio i bobl anabl yn y lleoliadau a nodir yn Atodlenni 1 a 2 a dileu'r mannau parcio i bobl anabl yn y lleoliadau a nodir yn Atodlenni 3 a 4 isod.
2. Mae modd gweld manylion llawn y cynigion, gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF921) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gv.uk erbyn 7 Awst 2020 ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn a gynigir.

Bwriedir diwygio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:
Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Mannau Parcio Arfaethedig i Bobl Anabl
Ivy Street, Penarth (15) (AK64)
Ar ochr y dwyrain, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 15 ac 16 tua'r gogledd am 5 metr.
Masefield Road, Penarth (44B) (AJ62)
Ar ochr y de o bwynt 12 metr i'r gorllewin o'r ffin rhwng eiddo rhifau 40 a 42 tua'r gorllewin am bellter o 9 metr i redeg yn gyfochrog â lleoedd parcio i bobl anabl sy'n bodoli eisoes.
Church Road, Y Barri (46) (AS54)
Ar ochr y de-ddwyrain o'r ffin ddeheuol rhwng eiddo rhifau 46 a 48 tua'r de-orllewin am 5 metr.
Evans Street, Y Barri (AV51)
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 7.5 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Spencer Street tua'r gogledd-orllewin am 6 metr.
Everard Street, Y Barri (28) (AV52)
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r ffin rhwng eiddo rhifau 26 a 28 tua'r gogledd-orllewin am 5 metr.
Gaspard Place, Y Barri (5) (BA49)
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 3 a 5 tua'r gogledd-orllewin am 6.6 metr.
St Nicholas Road, Y Barri (25) (AY49)
Ar ochr y dwyrain, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 23 a 25, tua'r de am 5.3 metr.

ATODLEN 2

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr a chreu Man Parcio i Bobl Anabl yn lle
Crossways Street, Barry (AU52)
Ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 23 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Court Road, tua'r gogledd-ddwyrain am 6 metr.
Maes y Cwm Street, Y Barri (59) AU52
Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 21 a 23, tua'r gogledd-ddwyrain am 5.2 metr.
Morel Street, Y Barri (86) (AU53)
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r ffin rhwng eiddo rhifau 84 a 86 tua'r gogledd-orllewin am 5 metr.

ATODLEN 3

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Mannau Parcio i Bobl Anabl presennol
Commercial Road, Y Barri (18) (AT53)
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng eiddo rhifau 16 ac 18, tua'r de-ddwyrain am 5.9 metr.

ATODLEN 4

Penderfyniad arfaethedig i ddileu'r Man Parcio i Bobl Anabl presennol gan greu man Aros Cyfyngedig, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn 2 awr, ac eithrio Deiliaid Trwydded i Breswylwyr
Lower Morel Street, Y Barri (32) AV53

Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 32 a 34 tua'r de-ddwyrain am 4.8 metr.

Dyddiedig 16 Gorffennaf 2019

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.